# YR AMSERAU A IEUAN GWYLLT

### gan P.H.JONES

DECHREUODD Ieuan Gwyllt ar ei yrfa fel golygydd yr *Amserau* ar y nawfed o Ragfyr 1852 a bu'n llenwi'r swydd tan tua dechrau Hydref 1858. Pan ddeallodd mae efe fyddai'r golygydd (yn hytrach na gweithredu fel is-olygydd dan Hiraethog) fe'i brawychwyd. Sut medrai 'hogyn o Fethodist' feiddio llenwi cadair un o gewri'r genedl?

Nid oedd yn hoffi Lerpwl: *'I have only been in Liverpool for 11 weeks yet it appears to me like 11 years'* oedd ei gŵyn i'w gyfaill John Matthews.

Nid oedd yn hoff ychwaith o un o'i gydweithwyr, John Jones, a fu'n parhau i drin y newyddion tramor tan ei farwolaeth ddisymwth ddechrau Ionawr 1854. Hwyrach i hwnnw, fel un o sefydlwyr yr *Amserau* a gŵr a oedd yn hŷn o lawer nag ef, geisio tra-arglwyddiaethu ar y Gwyllt.

Ond ni welai'r Gwyllt 'y fath ragoriaeth yn yr hen frawd ag a'i ddysga i blygu iddo.' Daeth yn fuan yn gyfeillgar iawn â'i gydweithiwr arall, Eleazer Roberts.

Yr hyn a oedd yn peri'r diflastod mwyaf iddo oedd y pwysedd gwaith. Yn ogystal â'r gwaith o gasglu, cyfieithu a threfnu llawer o gynnwys y papur, 'roedd yn rhaid iddo fwrw ati ar unwaith i ysgrifennu *'leaders'* oherwydd enciliad Hiraethog.

Cyfansoddodd ei erthyglau blaen cyntaf yn frysiog dros ben gan eu rhoi yn nwylo 'diafol y wasg' heb gyfle i'w hadolygu. Wrth iddo eu darllen mewn print, ymddangosent 'fel rhyw gymylau meddyliau yn gymysgedig a llawer o ysbwrial.'

Ond er gwaethaf pob diflastod 'roedd y Gwyllt yn benderfynol na fyddai'n digalonni: 'nid oes gennyf ond gwneud fy ngoreu, ac os methu a wnaf, nid methu o eisiau ceisio a fydd'. Erfyniodd ar ei gyfeillion megis John Jones 'Ivon' a Thomas Levi gyfrannu newyddion a darnau llenyddol i'r *Amserau* yn rheolaidd.

Cyn hir 'roedd wedi paratoi cynlluniau manwl er mwyn gwella'r newyddiadur. Rhoddai gryn bwyslais ar gael mwy o newyddion o dde Cymru trwy benodi rhagor o ohebwyr lleol.

Y broblem fawr oedd dod o hyd i ohebwyr dibynadwy a fyddai'n barod i wneud y gwaith yn ddi-dâl. Er bod papurau Seisnig yn cynnig tâl i'w gohebwyr, y mwyaf y gallai Lloyd ei fforddio oedd danfon copi rhad o'r *Amserau* iddynt bob wythnos fel cydnabyddiaeth.

* * * *

BU CRYN lewyrch ar yr *Amserau* yn ystod 1853. Cryfhawyd ei sefyllfa ariannol yn sylweddol o fis Awst ymlaen oherwydd diddymu'r dreth o 1/6 ar bob hysbyseb a gyhoeddwyd mewn newyddiadur. O hyn allan, 1/6 yn hytrach na 3/– neu 3/6 a godwyd am hysbyseb o chwe llinell, a dwy geiniog am bob llinell ychwanegol.

Canlyniad haneru costau hysbysebu oedd cynnydd buan a pharhaol yn y nifer o hysbysebion a gyhoeddwyd yn yr *Amserau*: cyn pen chwe mis 'roedd hysbysebion yn llenwi'r tudalen blaen ac yn dechrau gorlifo i'r dudalen cefn.

Cawn ambell un yn manteisio ar y cyfle i gyhoeddi ffug-hysbysebion dychanol. Dechrau Tachwedd 1853 'roedd rhywun yn barod i dalu 3/6 am hysbyseb a ddifrïai y 'Drefn Walchmiaidd' o farddoni, gan gyfeirio ymholwyr at Swyddfa'r Drefn 'yn ngeg pont bibellawl Conwy'!

Bu cynnydd sylweddol yng ngwerthiant y newyddiadur yn ystod 1853. Yn ôl Ieuan Gwyllt, cododd y gwerthiant wythnosol o 1,850 o gopïau ar ddechrau Rhagfyr 1852 i 3,200 erbyn Chwefror 1854.

Cyfaddefai mai 'Nicholas o Rwsia . . . nid Ieuan Gwyllt' a fu 'yn foddion i helaethu ei gylchrediad yn y mesur hwn.' Cyfeiriai yma at y tyndra rhyngwladol cynyddol a esgorodd ar ryfel rhwng Rwsia a Thwrci ddechrau Hydref 1853 gan greu galw mawr am newyddion o ddwyrain Ewrop a'r Môr Du.

Er na ddymunai rhai darllenwyr ddim mwy na hanesion cyffrous am wrhydri milwrol mewn rhannau egsotig o'r byd, 'roedd cefndir ac arwyddocâd gwleidyddol y gwrthdaro o ddiddordeb mawr i lawer o ddarllenwyr yr *Amserau.*

A fyddai Rwsia, a fu'n gefn i'r adweithwyr a orchfygodd chwyldro 1848, yn awr yn cael ei 'chosbi'? A fyddai Prydain yn ymgynghreirio â Thwrci? Beth fyddai safbwynt Ffrainc ac Awstria?

'Roedd carfan arall o ddarllenwyr yn galw am yr un newyddion ond am resymau gwahanol iawn.

Yn ystod y 50au cynnar cyhoeddwyd nifer o lyfrynnau yn Lloegr a geisiai esbonio digwyddiadau rhyngwladol cyfoes yng ngoleuni proffwydoliaethau'r Beibl. Bu cryn ddiddordeb yng Nghymru yn y gweithiau apocalyptaidd hyn.

Cyhoeddwyd cyfieithiadau Cymraeg o lyfr David Pae a honnai fod brwydr Armagedon ar fin digwydd gan nifer o gyhoeddwyr Cymru ym 1853, a gwyddom i un ohonynt, Hughes o Wrecsam, werthu dros 5,000 o gopïau mewn ychydig fisoedd.

* * * *

CAWN drafod effeithiau Rhyfel y Crimea ar yr *Amserau* yn ein rhan nesaf: rhaid dychwelyd yma at Ieuan Gwyllt yn 1853.

Mae'n haeddu clod fel golygydd am ei barodrwydd i ymateb i'r galw am newyddion tramor. Dechreuodd ddefnyddio dyfeisiau newyddiadurol newydd megis y *'stop press'* (paragraffau o 'newyddion diweddaraf' mewn bocs amlwg) a rhoddodd fwy o amlygrwydd i 'newyddion pellebrol', sef newyddion a dderbyniwyd trwy gyfrwng y telegraff.

Ond ei brif gamp oedd llwyddo i gadw teyrngarwch darllenwyr er ei bod yn eithaf hysbys erbyn diwedd Haf 1853 nad oedd gan Hiraethog unrhyw gysylltiad rheolaidd â'r *Amserau* mwyach.

Cododd yr hen fwgan enwadol ei ben eto yn ystod 1853, pan awgrymodd rhai Annibynwyr blaenllaw fod yr *Amserau* wedi troi'n bapur Methodistaidd.

Ysgrifennodd William Ambrose 'Emrys' at Ieuan Gwyllt i'r perwyl hwn gan ddweud' 'I believe we, as a denomination, should make a decided stand against the Amserau'.

Gofidiai John Lloyd y byddai Emrys a Hiraethog yn cychwyn newyddiadur newydd a fyddai'n cystadlu yn erbyn yr *Amserau.* Ond ni ddaeth dim o'r cynllun hwn gan fod Hiraethog yn anfodlon gwneud dim a fyddai'n ei niweidio. Erbyn diwedd 1853 gallai Lloyd sôn yn hyderus am ei gynlluniau i ehangu'r newyddiadur yn sylweddol heb godi ei bris.

* * * *

PRIF gamp lenyddol yr *Amserau* ddiwedd 1853 a dechrau 1854 oedd cyhoeddi *Brad y Llyfrau Gleision*, drama ryfeddol R. J. Derfel a ddychanai Gomisiwn Addysg 1846-7. Rhoddodd yr awdur ychydig o hanes cyhoeddi'r ddrama yn ei hunangofiant a gyhoeddwyd (yn Saesneg) yn *Llais Llafur* yn 1905.

Dywed iddi ymddangos yn ddienw — ni ddatgelodd hyd yn oed i'w gyfeillion Ceiriog a Chreuddynfab mai efe oedd yr awdur — ac i'r gyfrinach gael ei chadw am flwyddyn. Pan fygythiodd *'some of the gentlemen who were depicted under fictitious names'* ddod ag achos o enllib yn erbyn yr *Amserau* bu'n rhaid rhoi'r gorau i gyhoeddi'r ddrama ynddo. Yna fe'i cyhoeddwyd yn ei chrynswth gan R. J. Derfel yn 1854 heb unrhyw ymgais gan neb i ddod ag achos yn ei erbyn.

Nid yw'r hanes yn fanwl gywir (nac ychwaith gosodiad y *Bywgraffiadur* mai 'darnau' yn unig o'r ddrama a gyhoeddwyd yn yr *Amserau*). Rhwng diwedd Medi 1853 â chanol Chwefror 1854 cyhoeddwyd dros hanner y ddrama ynddo (111 o'r 197 o'r 197 o dudalennau yn y llyfr).

Datgelwyd awduraeth y ddrama mor gynnar â chanol Rhagfyr 1853, pan gyhoeddwyd hysbyseb yn galw am enwau 700 o danysgrifwyr er mwyn galluogi R. J. Derfel i'w chyhoeddi.

Nid oes tystiolaeth bendant o blaid nac yn erbyn yr hyn a ddywed R. J. Derfel ynglŷn â'r bygythiad o achos cyfreithiol, ond, o'i blaid, dylid sylwi i ergydion y ddrama droi yn fwyfwy personol ddechrau 1854, gan enwi a difrïo y tri chomisiynwr ac, yn fwyaf arbennig, un o'r tystion, John Griffith, Ficer Aberdâr.

Cyhoeddwyd llythyr yn yr *Amserau* ddechrau Chwefror 1854 oddi wrth 'Eglwyswr' a gondemniai'r ddrama fel 'anferthwch annuwiol' a gynhwysai 'enllibion dychrynllyd' ac o fewn pythefnos i hyn rhoddwyd y gorau i'w chyhoeddi.

Er i R. J. Derfel ymffrostio na ddygwyd achos yn ei erbyn pan gyhoeddwyd y ddrama fel llyfr, ni chyfaddefodd ei fod wedi llareiddio ar ambell i ymadrodd a chyfeiriad personol.

*(I'w barhau)*

## COFIO CANTORION

### *The Welsh Imperial Singers*

BYDD Gwasg Carreg Gwalch yn cyhoeddi ar Fawrth 1, 1991 lyfr gan Alun Trevor â'r teitl Cofio Cantorion: The Welsh Imperial Singers. Mae'r llyfr dwyieithog hwn yn rhoi hanes, mewn geiriau a lluniau, y cantorion a roddodd gymaint o bleser i filoedd ym Mhrydain, yr Unol Daleithiau a Chanada yn ystod 1926–1939.

Mae diolch yn ddyledus i lawer, meddai'r awdur, ar ddwy ochr i'r Môr Iwerydd, am anfon lluniau, rhaglenni cyngherddau, dyddiaduron, llythyrau, teithlyfrau, rhestri aelodaeth, toriadau ac atgofion a wnaeth y llyfr hwn yn bosibl. Mae diolchgarwch yn ddyledus yn enwedig i ddarllenwyr y cylchgrawn hwn.

Detholiad fydd y llyfr o holl faterion a anfonwyd mor haelionus. Bydd yr elw o werthiant y llyfr yn mynd tuag at gynorthwyo cronfa Eisteddfod Genedlaethol Bro Delyn, Yr Wyddgrug, 1991.

Os oes gan ddarllenwyr wybodaeth ychwanegol am y grŵp cantorion proffesiynol hwn, neu am unrhyw un ohonynt, yna buasai Alun Trevor yn falch o glywed oddi wrthych. Ysgrifennwch ato yn 5 Windsor Court, Duke Street, Chester CH1 1RP.